

GORCHYMYN CYNGOR DINAS CASNEWYDD

TAFLEN WYBODAETH POLISI CODI TÂL GOFAL PRESWYL

Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth benderfynu ar swm y taliadau sy'n berthnasol mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth y maent yn eu darparu neu drefnu neu'n cynnig eu darparu neu drefnu wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted>

Rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau na chodir mwy ar bobl na sy'n rhesymol ymarferol iddynt ei dalu am eu gwasanaethau ac ni ddylid codi mwy na'r gost i'r awdurdod o ddarparu neu drefnu'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn neu y maent i'w cael eu hunain drwy daliadau uniongyrchol.

Codi Tâl am Ofal Preswyl

Os ydych wedi cael eich asesu gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fel rhywun sydd angen gofal preswyl neu nyrsio dros dro neu hirdymor, mae'n rhaid i ni gynnal asesiad ariannol.

Cyfrifo'r Tâl a Asesir

Byddwn yn cyfrifo eich tâl a asesir drwy edrych ar eich incwm a'ch cyfalaf. Yna cyfrifir y tâl a asesir drwy adio cyfanswm eich incwm gyda'i gilydd llai'r lwfans personol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Wrth gyfrifo eich cyfraniad, rydym yn anwybyddu unrhyw gyfalaf o dan £50,000.00. Os oes gennych £50,000.00 neu fwy mewn cyfalaf, bydd gofyn i chi dalu cost lawn eich gofal. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'ch incwm, gan gynnwys budd-daliadau nawdd cymdeithasol, yn cyfrif tuag at gost eich gofal. Os oes gennych ŵr neu wraig sy'n byw gartref, gofynnir i chi a ydych yn bwriadu trosglwyddo hanner unrhyw bensiwn galwedigaethol (preifat) iddo. Bydd y wybodaeth ar y ffurflen asesu ariannol yn cael ei defnyddio i gyfrifo faint sydd angen i chi ei dalu bob wythnos tuag at eich costau gofal (tâl wythnosol a asesir) a bydd gweddill unrhyw gostau gofal nad ydynt yn cael eu talu gan eich tâl wythnosol a asesir yn cael eu talu gan y Cyngor.

Budd-daliadau

Ni fydd yr holl fudd-daliadau a gewch yn parhau i gael eu talu pan fyddwch yn mynd i ofal preswyl. Os yw'r Cyngor yn cyfrannu at eich costau gofal a'ch bod yn derbyn Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl (elfen gofal) neu Daliadau Annibyniaeth Personol (elfen byw bob dydd) bydd hyn yn dod i ben bedair wythnos ar ôl i chi gael eich derbyn i ofal. Oni bai eich bod wedi bod mewn seibiant neu ysbyty yn ddiweddar, os felly efallai'n gynt.

Os nad yw'r Cyngor yn talu unrhyw gyfraniad, mae gennych hawl lawn o hyd i'r budd-daliadau hyn. Os ydych yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (elfen symudedd) neu Daliad Annibyniaeth Personol (elfen symudedd) bydd hyn yn parhau i gael ei dalu ond ni chaiff ei ystyried wrth gyfrifo'ch tâl wythnosol a asesir.

Os ydych yn hawlio Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol mae angen i chi roi gwybod am y newid yn eich amgylchiadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

O 11 Ebrill 2022, y swm y gallech ei gadw ar gyfer eich anghenion personol eich hun yw £35.00 yr wythnos. Caiff y swm hwn ei bennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Gallwch hefyd gadw hyd at £5.75 arall fel person sengl os ydych dros 65 oed ac yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn.

Eiddo

Os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun, byddwn fel arfer yn ystyried ei werth wrth gyfrifo faint sy'n rhaid i chi ei dalu am eich gofal preswyl. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau pwysig i'r rheol hon. Bydd gwerth eich cartref yn cael ei ddiystyru fel cyfalaf os ydych ond yn mynd i mewn i'r cartref dros dro neu os yw un o'r bobl ganlynol yn dal i fyw yno:

- perthynas sydd o dan 16 oed, ac y mae'n rhaid i chi ei gefnogi yn ôl y gyfraith
- perthynas sydd dros 60 oed
- perthynas sy'n analluog

Os oes gennych gyfalaf, gan gynnwys eiddo, gwerth £50,000 neu fwy, gofynnir i chi dalu'r tâl llawn am eich gofal. Os ystyrir gwerth eich cartref fel cyfalaf / cynilion, efallai na fydd gennych ddigon o incwm neu gynilion eraill i dalu am gostau llawn eich gofal preswyl. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen i chi ystyried gwerthu eich cartref er mwyn talu'r ffioedd.

Yn ystod 12 wythnos gyntaf eich gofal preswyl, byddwn yn diystyru gwerth eich eiddo ac ni chaiff ei ddefnyddio wrth gyfrifo eich tâl wythnosol a asesir. Ar ôl 12 wythnos bydd gwerth eich eiddo yn cael ei ystyried fel cynilion / cyfalaf, ac os yw hyn yn cyfateb i £50,000 neu fwy gofynnir i chi dalu'r tâl llawn am eich gofal. Fodd bynnag, os byddwch yn gwerthu eich cartref yn ystod y cyfnod o 12 wythnos byddwch yn dechrau talu costau llawn eich gofal cyn gynted ag y caiff ei werthu.

Cytundeb Taliad Gohiriedig

Os nad oes gennych ddigon o arian i dalu eich cyfraniad i'ch ffioedd gofal heb werthu eich cartref, byddwn yn caniatáu i chi oedi cyn gwneud eich taliadau. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn rhoi benthyciad i chi, a dim ond pan fyddwch wedi gwerthu eich cartref neu pan fydd y broses o sortio'ch ystâd wedi dirwyn i ben y byddwch yn ei dalu'n ôl. Codir tâl gweinyddol am sefydlu'r cytundeb taliadau gohiriedig a chodir llog yn ystod cyfnod y cytundeb talu gohiriedig. Bydd y llog a godir 0.15% yn uwch na Chyfradd Giltiau'r Farchnad fel y nodir yn yr Adroddiad Rhagolwg Economaidd a Chyllid diweddaraf a gyhoeddwyd.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn, rhaid i chi fodloni meini prawf cymhwysedd penodol a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn y Daflen Wybodaeth Taliadau Gohiriedig.

Os derbynnir eich cais am daliadau gohiriedig, byddem yn eich cyngori i ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn i chi gwblhau'r trefniadau a rhaid i chi sicrhau bod eich eiddo wedi'i yswirio a'i gynnal a'i gadw'n briodol. Os na allwn gynnig taliad gohiriedig i chi, byddwn yn rhoi ein rheswm/rhesymau i chi yn ysgrifenedig.

Trosglwyddo neu Roi Asedau

Os bydd person yn rhoi ei gartref, ei gynilion neu ei asedau eraill i ffwrdd cyn mynd i ofal preswyl / nyrsio neu pan fydd eisoes yn byw yno, rhaid i ni ymchwilio'n fanwl i'r amgylchiadau. Rhaid i ni hefyd archwilio unrhyw achos o werthu ased am lai na'i werth gwirioneddol ar y farchnad. Gan fod gennym ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus, rhaid i ni ymchwilio a phenderfynu a oedd osgoi talu am ofal preswyl neu nyrsio, neu tuag ato yn un o'r ffactorau pennaf dros gael gwared ar yr eiddo. Os penderfynwn mai un o'r ffactorau yn y penderfyniad i roi i ffwrdd, neu werthu ased am lai na'i werth ar y farchnad oedd osgoi talu ffioedd neu leihau'r swm sy'n daladwy, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni weithredu. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallwn naill ai eich asesu fel un sy'n dal i fod yn berchen ar yr ased(au), neu ei gwneud yn ofynnol i'r person y gwnaethoch roi'r eiddo iddo gyfrannu tuag at eich ffioedd.

Gofal Byrdymor

Os ydych yn mynd i gartref preswyl neu nyrsio am ofal seibiant / byrdymor hyd at uchafswm o 8 wythnos, newidiodd y rheolau codi tâl ym mis Ebrill 2016. Mae hyn yn golygu, os asesir bod angen gofal seibiant / byrdymor arnoch, codir tâl arnoch fel pe baech yn derbyn gofal yn y cartref, a'r uchafswm y byddwch yn ei dalu yw £100.00 yr wythnos.

Dewis Llety Drutach

Os yw'r cartref gofal a ddewiswch yn costio mwy nag y byddai'r Cyngor yn ei dalu fel arfer, ac mae lleoedd ar gael mewn mannau eraill a fyddai'n diwallu eich anghenion, gallwch barhau i symud i'ch cartref gofal dewis cyntaf, os yw aelod o'r teulu neu ffrind yn barod i dalu'r gwahaniaeth. Gelwir hyn yn gostau ychwanegol (ychwanegiad trydydd parti). Os daw amser pan na all eich trydydd parti fforddio'r gost ychwanegol, gallwch ofyn am ailasesiad o'ch anghenion. Os bydd hyn yn digwydd – ac mae'r asesiad yn dangos y byddai cartref llai costus yn lleol yn diwallu eich anghenion, efallai y byddwn yn gofyn i chi symud yno.

Os yw'ch amgylchiadau'n newid

Os yw eich amgylchiadau wedi newid a bod angen cyngor arnoch, cysylltwch â'r Tîm Ymweld ar 01633 656656. Gall newidiadau gynnwys:

- Cynnydd / gostyngiad mewn incwm neu gyfalaf, e.e. os yw'n disgyn yn is na £50,000.
- Nid yw eiddo a ddiystyrwyd yn flaenorol bellach yn dod o fewn y meini prawf diystyru, e.e. mae perthynas sydd dros 60 oed yn symud allan. Sut y byddaf yn cael gwybod faint i'w dalu?

Beth os byddaf yn gwrthod rhoi unrhyw wybodaeth?

Nid oes rhaid i chi ddatgelu manylion eich materion ariannol, ond os byddwch yn dewis peidio, codir cost lawn eich lleoliad. Drwy rannu eich amgylchiadau ariannol gyda ni, efallai y bydd eich asesiad yn nodi y dylech dalu llai.

- Caiff y lefel gyfalaf hon ei newid yn flynyddol bob mis Ebrill yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ar ôl i'ch incwm gael ei asesu, byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion o ran sut mae eich tâl wedi'i gyfrifo.

Sut ydw i'n talu

- Gellir talu drwy Ddebyd Uniongyrchol neu Archeb Sefydlog yn uniongyrchol o'ch banc.
- Drwy Gerdyn Debyd neu Gredyd - Os oes angen i chi siarad â chynghorydd a bod gennych gerdyn debyd, gallwch dalu eich anfoneb drwy ffonio'r Cyngor ar 01633 210710, 210706 neu 210709. Sicrhewch fod gennych eich holl fanylion wrth law gan gynnwys eich rhif cyfeirnod.
- Drwy Eich Banc - Dyfynnwch: Cod Didoli Banc 09 07 20 Rhif Cyfrif Banc 05070406 a'ch rhif cyfeirnod o'ch anfoneb. D.S. Dim ond pan fydd y credyd wedi'i glirio drwy Gyfrif Banc Cyngor y Ddinas y bydd taliadau wedi'u gwneud.
- Drwy'r Post - Anfonwch eich siec neu archeb bost yn daladwy i Cyngor Dinas Casnewydd i

Cyngor Dinas Casnewydd
Blwch SP 886
Casnewydd
NP20 9LU

- Paypoint a Swyddfa'r Post – mewn Swyddfeydd Post, Siopau Papurau Newydd Lleol a Siopau Eraill sy'n cynnig y gwasanaeth PayPoint. Cyflwynwch eich anfoneb a bydd eich taliad yn cael ei gymryd gan ddefnyddio'r system cod bar.

Gallwch hefyd ddefnyddio siec, cerdyn neu arian parod yn Swyddfa'r Post, ond cofiwch mai ARIAN PAROD YN UNIG a ddefnyddir mewn Lleoliadau eraill.

Beth allwch chi ei wneud os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael eich trin yn annheg?

Mae gennym broses adolygu, os credwch fod y tâl wedi'i gyfrifo'n anghywir neu os teimlwch y bydd lefel y tâl a osodir yn achosi caledi ariannol.
Cysylltwch â'r Tîm Cyllid ar 01633 656656 am ragor o wybodaeth.